TRAWSGRIFIAD FIDEO: Anathemata – Sgwrs gyda Churaduron yr Arddangosfa Pierre-Alexandre Mateos a Charles Teyssou.

Iaith: Saesneg
Is-deitlau: Saesneg, Cymraeg

Charles Teyssou: Enw'r arddangosfa yw Anathemata. Mae'n seiliedig ar gerdd David Jones, bardd modernaidd Cymreig. Mae'r sioe ei hun yn seiliedig ar, hynny yw, yn delio gyda, yn holi'r genre epig mewn pedwar ffigur: artistiaid a beirdd yr 20fed ganrif. Mae hynny'n dechrau gyda David Jones, Antonin Artaud, Sarah Kane a Pierre Guyotat.

Pierre-Alexandre Mateos: Mae'r sioe yn ymchwilio'r syniad o genre epig. Mae hefyd yn ymchwilio'r syniad hwn gyda thri artist cyfoes Martin Bladh, Karolina Urbaniak a James Richards. Mae Anathemata yn delio â genre mawr, gyda detholiad o lawysgrifau, dogfennau gwreiddiol, lluniadau, fideo a synau.

CT: Fe welwch gêm bêl-droed o Fanceinion, hynny yw, gan Fanceinion, a allai fod y darn mwyaf lletchwith neu ddim yn arferol yn y sioe. Oherwydd roeddem eisiau gynrychioli'r genre epig, o'r epig draddodiadol, sy'n delio ag awyddau a rhyfeloedd, a hefyd epig fwy poblogaidd a cyferbyniol, sef pêl-droed. Hefyd, y stori yw bod Sarah Kane yn gefnogwr brwd o Manchester United ac yn enwedig David Beckham, ac roedd hi'n deall pêl-droed fel math o gynrychiolaeth, cynrychiolaeth fytholegol, o dduwiau yn chwarae er meddiant yr Haul.

PAM: Rwy'n meddwl bod yr arddangosfa'n eithaf rhamantus, atgofus a hanfodol, fel dywedodd Charles, mae'n delio â'r syniad o drais a'i gynrychiolaeth o destun i ddelwedd. Rwy'n gobeithio y bydd pobl yn cael ychydig o sioc ac yn cael eu cyffroi gan y gwahanol wrthrychau, arteffactau a llawysgrifau rydyn ni'n dod i Gymru.

CT: Mae'n ymwneud â thrais a rhyfel ond mae'n ymwneud â chariad ac amwysedd teimladau dynol hefyd. Felly, mae yna'r tensiwn hwn o hyd yn rhedeg trwy'r sioe o'r tu allan... Ac ar yr olwg gyntaf fe allai ymddangos yn ddigysgod a thywyll ond os ydych chi'n ymchwilio mwy i mewn iddo, fe welwch hefyd rai olion o obaith, mae'n debyg, a golau.

Mae'r sioe ei hun yn seiliedig ar David Jones, felly'r bardd Cymraeg modernaidd hwn. Ond yr hyn oedd o ddiddordeb i ni, oedd ei gysylltu ag Antonin Artaud, a oedd tua'r un ddegawd yn lwerddon am dair wythnos yn ystod yr haf, ac roedd yn ysgrifennu melltithion, melltithion a anfonodd at ei ffrindiau naill ai i'w hamddiffyn rhag yr apocalyps, neu i'w hanfon at yr apocalyps. A'r hyn a oedd hefyd yn brydferth yw, yn ystod y cyfnod hwn o amser, cyn i Antonin Artaud ei hun gael ei garcharu mewn ysbyty seiciatryddol, roedd yn ysgrifennu testunau am rôl yr arlunydd fel cynhyrchydd mytholeg. Ac rwy'n meddwl bod y genhadaeth hon am bob artist yn un bwysig iawn.

PAM: Rwy'n meddwl bod yr holl artistiaid sydd wedi cael eu gwahodd i'r arddangosfa, neu antur mytholeg, nid oes ganddyn nhw gymaint o ddiddordeb yng nghelf y gorffennol, ond yn fwy'r cyflwr sy'n caniatáu i'r gelf hon i flodeuo. Maent i gyd yn gysylltiedig â'r syniad cryf hwn, eithaf clasurol, o ddychymyg. A'r hyn yr oeddem eisiau ei wneud ag Anathemata oedd gwneud goblygiadau rhwng yr holl awduron hyn o wahanol gyfnodau a daearyddiaethau.